Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xxxviii. MEDI, 1938 Rhif 9.

Ennill Crair a Cholli Rhyddid.

Wrth nithio profiadau gwêl dyn fod rhai o bethau distadlaf bywyd gydag amser wedi tyfu'n gadarn, a llawer o bethau a fuasai'n gadeiriog wedi diflannu fel tarth. Nid yn ôl maint yr hedyn y bydd lled y canghennau ac " nid yn y bore y mae canmol diwrnod ".

Rhywbryd yn 1917 digwyddwn fod yn Ypres, ac nid lle i dorheulio ydoedd hwnnw ar y gorau y dyddiau hynny, a rhaid oedd ffoi yn fynych at y bwlch agored cyntaf—weithiau at y llygod ffrengig cadwrus yn y *sewer*, a phryd arall i gilfach y Red Cross yn y *Grande Place*.

Rhywdro lloches yr Eglwys Gadeiriol oedd yr agosaf imi, er nad oedd dyn ddim diogelach ym mhlith y saint nag ym mhlith y llygod, ond yr oedd amser dewis mor fyr yno. Yn union daeth *shell* i'r gongl honno hefyd, a gwelais chwalu rai o'r delwau oedd gerllaw imi yn ysgyrion.

Bydd yn arfer gan wyr hoff o greiriau crefyddol roi darn o asgwrn y sant yn ei ddelw, a thrwy hynny dyblir ei santeiddrwydd hi ; a chan taw plaster Paris ydoedd y delwau yr oedd cuddio crair ynddynt yn waith hawdd. Wrth sylwi ar y malurion o gylch fy nhraed gwelwn tua dwy fodfedd o asgwrn, tebyg i asgwrn morddwyd gŵr, yn eu plith, a'r naill ben iddo yn rhwym yn y plaster. Heb ystyried, tynnais yr asgwrn, a rhoddais ef yn fy llogell a'i ddwyn yn ôl gyda mi i'm ffau gerllaw.

Ambell ddiwrnod niwliog ni byddai gennym fawr i wneud. Weithiau ceid darn o asgwrn mêr eidion gyda'r bwyd a threuliai rhai ohonom oriau yn naddu serviette rings ohono â chyllell a durlif. Un o'r dyddiau niwliog nesaf, tynnais yr asgwrn morddwyd

allan ar fedr gwneud torch felly o hono yntau, ond deallais fy mod yn rhy ofergoelus i drin crair sant fel asgwrn eidion, ac o'r awr honno dechreuodd ormesu arnaf.

Yr oedd esgyrn aelodau milwyr yn brigo allan yma a thraw yn y llaid, ond yr oeddwn bellach wedi gorfod ymgaledu a chynefino â hynny.

Nid oedd neb o'm cydfilwyr yn amlwg am ei ddefosiwn—gwŷr glo Durham, a gwŷr haearn y Clyde oeddynt oll—ac nid oedd Babydd yn eu plith i gyd neu rhoiswn yr asgwrn iddo ef. Felly aeth pythefnos a mis a misoedd heibio a'r crair yn tyfu'n fwy o ormes bob dydd bron.

Cadwaswn i ddyddiadur o'r noson y tiriaswn yn le Havre a phob profiad o bwys wedi ei nithio'n gynnil ynddo. Cawswn flwch pren *bombs Mills* gan rywun i gadw fy ychydig gelfi rheidiol ac yn hwnnw y cedwid crair y sant a'r dyddiadur. Yr oedd y sant bach bellach yn dreth arnaf gan nad oeddwn yn credu digon ynddo i gael dim lles oddiwrtho, ac eto yr oeddwn yn rhy ofergoelus i wneud na thorch ohono na'i adael ym mhlith yr esgyrn yn y llaid er bod gennyf mwy o barch tuag at y rhai hynny na'r crair.

Ar ôl ei lusgo o ffos i ffau yn hir, yn methu ei anghofio nag ymddatod oddiwrtho, daeth gair ein bod i fynd ar ffrwst i'r Somme gan fod byddin Gough yn cael ei chwalu yno. Wedi mynd chwalwyd ninnau hefyd yn Villiers Brettoneux ac wedi casglu'r ychydig weddillion yr oedd gennym un lorry a thipyn o whisky ynddi—y lorry ddiweddaf a ddaethai allan o Villiers, ond yr oedd y rhan fwyaf o'n heiddo ni ar goll, ac yn eu plith yn y fedlam fawr rywle yr oedd fy nghoffor bach a'r dyddiadur a'r crair hefyd.

Rhoddodd y Battery S.M. air yn yr " Orders " am ddyddiau ynglŷn â'r dyddiadur rhag y gallai un o'r bechgyn daro arno ; ond wrth gofio gormes y darn morddwyd a'm hofergoel innau yr oedd arnaf ofn bob nos rhag i neb ei ddwyn yn ôl imi. Yr oedd profiadau'r dyddiadur yn rhan ohonof ac ni allai neb na dim fy ysbeilio ohonynt hwy, a gwell gennyf golli'r dyddiadur na'i gael yn rhwym wrth y crair.

Cyn i bethau damweiniol crefydd gael gafael ar yr asgwrn a'i droi'n grair dichon ei fod wedi byw yn wr defnyddiol a chymdogaeth yn llesach ohono ; ond y gwaethaf yw bod pethau da wedi darfod byw weithiau'n troi'n greiriau ac yn fwy o ormes bob dydd gyda threigl amser. Fe fedr dyn ymresymu â sant byw weithiau ond wedi i'w esgyrn fynd yn greiriau y maent mor ddidrugaredd a'r bedd.

Dichon bod mwy o greiriau yng nglŷn â chrefydd nag â dim arall a hynny yn bennaf pan fo crefydd yn troi'n ddiwinyddiaeth.

Anodd troi yr un rych o hen wndwn felly na bydd y swch yn troi hen greiriau i'r wyneb. Bu amser yng Nghymru pan werthid caeth am bedair ceiniog ar hugain. Pe gofynnai neb pan " pedair

ar hugain," yr ateb parod oedd — " Deg ar hugain arian dalwyd am Iesu Grist ac nid iawn talu cymaint a hynny am yr un dyn." Y mae arogl trwm rhyw fath o grefyddolder ar yr ateb a'r arfer, ond crefyddolder ydyw sydd yn barod i gymryd safon Judas yn sail trefn cyfalaf y canol oesoedd a chyfrif hynny yn dduwioldeb.

Bu amser pan gyfrifid deuddeg hwch yn genfaint o foch ac onid oedd hynny hefyd yn iawn a duwiol gan mai deuddeg disgybl oedd gan Iesu Grist ? a pha raid rheswm rhagorach i wŷr felly ?

Yr oedd gan Frenin Lloegr swyddog gynt i ddarpar puteiniaid ieuainc addas iddo ar ei daith yma a thraw, ac os mai deuddeg disgybl oedd gan Iesu Grist, a deuddeg hwch mewn cenfaint, onid iawn ydoedd darpar deuddeg merch ieuanc i frenin Prydain i wneud a fynnai â hwy ? Dim ond i ddyn gadw ei lygaid ar agor diau y gwêl olion y drefn " grefyddol " hon hefyd yn llên Cymru— teyrngarwch i Loegr oedd yr enw arni. Onid yw'n ymddangos yn dduwiol ryfeddol wrth gofio mai'r deuddeg apostol yw'r patrwm ? Pethau damweiniol crefydd wedi troi'n greiriau a llygru halogrwydd ei hun.

Treuliais gannoedd o oriau yn Tremvan gyda Dr. Gwenogvryn Evans. Magesid fi ym mhlith yr Annibynnwyr a thybiwn nad oedd neb yn llai o dan ormes creiriau ; ond gwelais nad oedd amryw bethau a gyfrifid yn santaidd gan yr Annibynnwyr ond creiriau ac yn fwy o ormes na'r gwirionedd llymaf o fewn dau glawr yr Ysgrythur.

Y mae llengoedd o greiriau ym myd addysg wrth reswm, ac yn fynych bydd cysur bydol a bywoliaeth dyn yn dibynnu ar barchu y rhai hynny, ond nid yw bywyd a thynged neb ond y gweiniaid yn dibynnu arnynt ym myd addysg, tra mai'r cyfan ar a feddwn at drugaredd creiriau crefydd—dyna un rheswm paham y bydd dda gennyf byth gofio imi gael gwared ar rai ohonynt ar aelwyd Tremvan.

Lle bynnag bo crair ni cheir rhyddid, a lle na bo gan ddyn brofiad o ryddid ofer disgwyl am grefydd.

12 : viii : 1938. TIMOTHY LEWIS.

LLWYDDIANT.—Cyflwynwyd gradd meddyg gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Glasgow i Dr. Tudor Jones, mab y diweddar Barch. L. Jenkins Jones, brodor o Ddowlais, a fu'n Faer Bwrdeisdref Woolwich ddwy waith, ac yn aelod o Gyngor Sir Llundain. Bu'r Parch. L. Jenkins Jones am yn agos i ugain mlynedd yn weinidog cynulleidfaoedd Undodaidd Plumstead a Woolwich, ac wedi hynny am rai blynyddoedd yn Glasgow. Bu Dr. Tudor Jones oddiar 1927 yn ddarlithydd mewn Milrhitheg (Embryology) ym Mhrifysgol Lerpwl, ar ôl dal swyddi ym Mhrifysgolion Llundain, Glasgow a Manitoba.

Gair o Brofiad.

DIOLCHAF yn gynnes am yr anrhydedd a osodwyd arnaf o gael eistedd yng nghadair Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.* Diolchaf hefyd am yr ysbryd brawdol, bonedd-igaidd a fu'n nodweddu'r cyfarfodydd i gyd. Carwn wneud rhyw ddau neu dri o sylwadau.

I.—YR ADDOLIAD CYHOEDDUS. Carwn weld mwy o ffyddlondeb tuag at ein gwasanaethau crefyddol ar y Sul. Y mae lle i ofni nad ydym mor frwdfrydig a'n tadau yn y gwaith o fynychu moddion gras. Y mae'r awydd am blesera wedi ein llyncu i raddau helaeth iawn, fel nad oes gennym y parch a ddylai fod i'r Sabath, ond gyrrwn mewn modur a bws a thrên i lannau'r moroedd a lleoedd ereill. Nid oes gennyf ddim yn erbyn plesera—y mae'n rhan o fywyd, a charwn weld pawb yn cael rhan dda ohono, ond carwn hefyd weld y gwasanaeth crefyddol yn cael mwy o sylw ar y Sul, yn enwedig gan y rhai hynny sy'n eu proffesu eu hunain yn aelodau o Eglwys Crist. Y mae llawer nad oes ganddynt iws i gapel nac eglwys ond ar achlysuron neilltuol. Y mae eu crefydd fel rhyw *spare wheel*—rhywbeth i'w ddefnyddio pan mae'n mynd yn *burst up* arnynt. Ond y mae Duw wedi ein dysgu i gofio cadw yn sanctaidd y dydd Sabath, a dysgu'r pethau hyn i'n plant a'n cydnabod a phawb hefyd o ran hynny, fel y byddont yn codi i fyny i barchu dydd yr Arglwydd ac i sancteiddio Ei enw Ef.

II.—YR YSGOL SUL. Ni wn a ydyw'r Ysgol Sul mor llewyrchus ag y gwelwyd hi flynyddoedd yn ôl. A ydyw'r athrawon mor ffyddlon ag y buont? A ydyw'r rhieni'n gofalu annog eu plant i fynd i'r Ysgol Sul? Dyma fagwrfa yr Eglwys. Blin ydyw gweld nifer y deiliaid yn mynd yn llai, a nifer yr athrawon yn llai byth. Carwn annog pawb i fod yn fwy ffyddlon gyda gwaith yr Ysgol Sul, sef dysgu egwyddorion sylfaenol y bywyd crefyddol. "Bydded y geiriau hyn, yr wyf yn eu gorchymyn i ti heddiw, yn dy galon, a dysg hwynt yn ddyfal i'th blant." Yr Ysgol Sul ydyw'r lle i wneud hynny, ac y mae'n hawdd argraffu ar feddwl y plentyn. Y mae eisiau i ni fod yn fwy eiddigeddus dros roddi gwybodaeth i'r plant, gwybodaeth o'n syniadau crefyddol fel enwad. Yr ydym yn enwad, a pharchwn ein syniadau trwy eu dysgu i'n plant, ar yr aelwyd, yn yr Ysgol Sul, yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Ychydig sôn sydd, onide, yn y dyddiau rhain am ymrafael ynglŷn âg addysg grefyddol yn ein ysgolion dyddiol. Er hynny y mae eto'n peri peth pryder mewn rhai cylchoedd enwadol. Er

*Araith y Llywydd, Mr. John Hopkin, Trebanos, yng Nghyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas yn Llandysul, Gorffennaf 27, 1938.

engraifft, yn ddiweddar mewn cyfarfod o Undeb yr Annibynnwyr yn Llundain, pan gynigiwyd penderfyniadau ynglŷn â gwelliannau yng nghyfundrefn addysg ein gwlad, pwysleisiai un aelod seneddol y pwysigrwydd o gael dealltwriaeth, cydweithrediad a chyfundrefn addysg rydd, unol ac anenwadol. Gwyn ein byd pe gallem gladdu am byth ymrafael yr enwadau ynglŷn ag addysg grefyddol. Yn sicr, bydd pawb yma heddiw'n dymuno'r un fath. Er hynny, anodd i'r hen saint a hyfforddwyd i rodio'r " llwybr cul " yn eu babandod goelio'r syniad nad peth i'w ddysgu ydyw crefydd wedi'r cyfan. Y mae gwirionedd yn syniad y Sais—*religion should be caught, not taught.* Hyderaf y bydd i'r athrawon wneud eu gorau i fod yn athrawon teilwng ac ymdrechu dysgu'r plant yn egwyddorion y Deyrnas. Paham yr ymdrecha'r enwadau, un ac oll, i gadw Ysgolion Sul yn fyw? Ai er mwyn dibenion sectyddol? O na, y mae rhyw Lais yn galw arnom i ddysgu'r Gorchmynion a'r Bregeth ar y Mynydd i'n plant. " Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd. Câr di gan hynny yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth. A bydded y geiriau hyn, yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddiw, yn dy galon, a hysbysa hwynt i'th blant, a chrybwyll amdanynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fyny . . . Ysgrifenna hwynt hefyd ar byst dy dŷ ac ar dy byrth." Y mae'r Ddeddf yn aros o hyd. Ni ddaeth Iesu i ddiddymu hon. " Ni ddeuthum i dorri ond i gyflawni." Y mae'r Ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn tra byddo ar dir y byw, ac y mae eisiau i ni gredu hyn o'n calonnau.

III.—Yr Ymofynnydd. Carwn weld Yr Ymofynnydd yn cael gwell derbyniad yn ein holl eglwysi. Cwynir fod nifer y derbynwyr yn mynd yn llai. Galwaf eich sylw at hyn am y teimlaf y dylai Yr Ymofynnydd gael gwell derbyniad trwy ychwanegu llawer at nifer ei ddarllenwyr.

Unig fisolyn ein henwad,
Mae hwn yn haeddu ymlyniad.

Bu'n llusern olau ar lawer aelwyd. Bu ei lenyddiaeth addysgol a dyrchafol ar hyd y blynyddoedd yn oleuni i laweroedd ar y " ffordd gul " sy'n arwain i'r bywyd. Gwnawn ein gorau i'w ddarllen, ac ymdrechwn dros eangu ei gylchrediad er mwyn ein henwad, er mwyn ein plant, er mwyn cadw sylfeini ein crefydd o flaen y byd. Da gennyf ddeall fod nifer y derbynwyr wedi cynhyddu ychydig yn ddiweddar.

IV.—Cynghrair y Gwragedd. Dyma un o'r sefydliadau gorau sy'n perthyn i'n heglwysi. Ym mhob eglwys gwneir gwaith ardderchog gan yr adrannau. Trwy eu diwydrwydd a'u dyfalbarhad gyda " gwaith y cysegr " ymhob cangen ohono rhoddant gymorth difesur i'r eglwysi bychain. Hir y parhaont i wasanaethu

fel hyn ac, os ydyw bosibl, boed i'w hesiampl ddeffro'r brodyr i fwy o wasanaeth. Daw'r chwiorydd yn agosach at Iesu yn eu cariad tuag ato ac yn eu sêl drosto na llawer o'r brodyr. Ewch rhagoch.

Da gennyf ydoedd cyfarfod y dydd o'r blaen a chynrychiolaeth fawr o adrannau Ceredigion yng Nghapel Gellionnen.

V.—Y Gymanfa Ganu. Y mae'n dda fod y Gymanfa yn dal ei thir cystal. Cawsom Gymanfa neilltuol o dda eleni—un ym Morgannwg ac un yn Sir Aberteifi, a chanu neilltuol o dda yn y ddwy. Gobeithio y bydd ei dyfodol mor llewyrchus a'i gorffennol. Treftadaeth y tadau ydyw hon. Na ato Duw i ni roddi treftadaeth ein tadau i neb, ond bydded i ni lynu wrthi o hyd ! Cofiwn lafurus gariad y tadau a'i cychwynnodd ac a fu'n aberthu er ei mwyn, llawer ohonynt erbyn hyn wedi mynd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr. Fe all pawb gymryd rhan mewn Cymanfa Ganu—gallant eu mwynhau eu hunain trwy ganu a chyd-ganu neu wrando ar y canu. Amcan y Gymanfa ydyw gwella caniadaeth y Cysegr, (*to improve the congregational singing*). Amcan gwir deilwng ydyw, ac un a fu'n allu dyrchafol yn yr Eglwys er yn fore iawn. Hir y parhao. Y mae eisiau i ni weld y pethau *sydd yn aros*. Y mae'r Gymanfa Ganu yn un o'r rhain. Y mae doniau'r Eglwys yn newid. " Pa un bynnag ai proffwydoliaethau, hwy a ballant ; ai tafodau, hwy a beidiant ; ai gwybodaeth, hi a ddiflanna . . . Y mae yn aros, ffydd, gobaith, cariad." Y mae anfarwoldeb i aros. Y mae cadarn sail Duw i aros, a chanddi'r sêl hon, Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef. Y mae'r berth o hyd yn llosgi, ac heb ei difa, am mai Duw sydd wedi plannu'r berth. " Y rhai a blannwyd yn nhŷ yr Arglwydd a flodeuant yng nghynteddoedd eu Duw. Ffrwythant hefyd yn eu henaint. Tirfion ac iraidd fyddant." Y mae eisiau i ni deimlo henaint a llesgedd corff, fel y dywaid Deon Inge, " . . . not merely by the weakness of his body, but by the strength of his soul ". Nid wrth wendid corff ond wrth gryfder enaid. Felly y teimlai'r Apostol Paul—" er llygru ein dyn oddiallan ein dyn oddimewn a adnewyddir o ddydd i ddydd ". Carwn yn fawr y gallu i deimlo hynny. Rhaid cyfaddef fod y lamp wedi mynd i losgi'n isel iawn yn hanes llawer, ac y mae eisiau i ni ddal yn gryf ar lwybrau gweddi a disgwyl yn hyderus am ddyfodiad Teyrnas Dduw i fywyd y byd. Diolch am ddynion sy wedi dal i ddisgwyl. Williams Pantycelyn a ganodd—

" Disgwyl 'rwyf ar hyd yr hirnos,
Disgwyl am y bore ddydd."

Disgwyl mawr yr hen genedl ydoedd y disgwyl am y Meseia. Disgwyl y disgyblion ydoedd am dywalltiad yr Ysbryd Glân. " Y rhai hyn oll oedd yn parhau yn gytun mewn gweddi ac ymbil." Gwendid mawr yr Eglwys heddiw yw ei bod yn wan yn ei disgwyl-

iad, wedi colli ohoni lawer o wres ei chariad cyntaf, ac wedi mynd i ymddiried mewn duwiau ereill.

" Pan fyddo achos Iesu
Yn eiddil a diglod,
Pan losgo'r lamp yn isel
Wrth ddisgwyl iti ddod,
A thwrf y rhai annuwiol
Fel sŵn ystormus li,—
Ar dawel lwybrau gweddi
O ! cadw, cadw fi ! "

Yn y ddameg y mae'r deg morwyn yn debyg iawn i'w gilydd. Aethant allan i gyfarfod y Priodfab, ond tra yr oedd y Priodfab yn aros yn hir, hepiasant oll. Ar hanner nos y bu gwaedd, " Y mae'r Priodfab yn dyfod. Ewch allan i gyfarfod ag ef." Dyma'r amser y gwelwyd y gwahaniaeth rhwng y morwynion. Yr oedd pump ohonynt yn gall, a phump yn ffôl. Y mae lle i ofni ein bod ninnau wedi mynd i gysgu'n ein heglwysi, ond y mae'r waedd hanner-nos yn sicr o ddod. Bydded i ni ddeffro o'n cysgadrwydd, a'n gwneud ein hunain yn barod fel rhai sy'n *disgwyl* y Priodfab i'w galw i mewn gydag ef i'r wledd.

Llwybrau gweddi—dyma lwybrau sy wedi mynd yn ddieithr ac yn unig iawn. Nid oes arnynt lawer o dramwy.

" Mae'r glaswellt ar y llwybrau
A welwyd gynt mor lân."

Ond er y cyfan i gyd llwybrau gweddi ydyw'r llwybrau mwyaf diogel. Gweddiwn gyda Elfed ar i ni gael ein dal yn gryf ar y llwybrau yma, fel ein tadau.

" Pwy a ŵyr sawl bendith inni
Sydd yn dod o'r amser gynt ? "

Ni wyddom beth ydyw dylanwad ein gweddiau ar Dduw ac ar ein cyd-ddynion, ond gwyddom hyn, " llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn ". Gwyddom fod

" Y llais gerllaw Iorddonen gynt
A alwai'r bobl ynghyd,
I'w glywed heddiw ar ei hynt
Yn galw ar bawb o'r byd."

Er fod yma leisiau ereill yn uchel, llais bydolrwydd, llais pleser a hunan-foddhad, llais y byd, y cnawd a'r diafol, yn hyglyw ac yn eglur, eto i gyd, y mae llais Iesu'n uwch ac yn fwy parhaol na'r un ohonynt.

" Mae holl leisiau'r greadigaeth,
Holl ddeniadau cnawd a byd,
Wrth dy lais hyfrytaf, tawel,
Yn distewi a mynd yn fud.

Bydded ynom hiraeth am glywed y llais hwn.

Ein Gŵyr Mawr.

IX.—WILLIAM THOMAS, M.A. (Gwilym Marles). (1834—1876).

"Enaid mawr ar dân : protest nobl a gonest yn erbyn gorthrwm scweier a stiward : pregethwr tanllyd a golau gan mlynedd o leiaf o flaen ei oes : ysgolfeistr ac arweinydd gwerin gwlad : llenor a bardd, a gŵr Duw a dorrodd ei enw ddyfnaf ar gymeriad gwerin Dyffryn Cletwr". Dyna i mi yw Gwilym Marles, gweinidog Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa a Llandysul.

Fe'i ganwyd yng Nglan-rhyd-y-Gwiail ar lan afon Cothi ym mhlwy Llanybydder, rhwng Brechfa ac Abergorlech, yn y flwyddyn 1834. Mab y Gelli Grin oedd ei dad ac un o deulu Llwyncelyn oedd ei fam. Mabwysiadwyd Gwilym gan fodryb, chwaer ei dad, a'i gŵr yn ddiacon yng nghapel Annibynnol Gwernogle.

Aelwyd grefyddol oedd aelwyd ei gartref, a gwelid ynddo'n fore ysbryd defosiwn. Crydd oedd ei ewythr, ac fel Henry Jones ar ei ôl, dysgodd yntau'r grefft. Yr adeg hon cadwai Dr. William Davies ysgol ragorol yn Ffrwdyfâl, ac yno bu Gwilym nes cael ei dderbyn i Goleg Caerfyrddin yn 1852. Dyddiau o ymdrech a cheisio am y golau oedd dyddiau'r coleg, a dyddiau hwyrach o betruso ac ofni. Annibynnwr oedd Gwilym pan ddaeth i'r coleg ond cyn ymadael am Glasgow yn 1856 yr oedd ei ffydd wedi'i siglo. Treuliodd bedair blynedd yng Nglasgow yn hogi'i gryman gan raddio yno.

Wedi gorffen yn y coleg yn 1860 ymsefydlodd yn weinidog hen eglwysi Dafis Castellhywel, a bu yma hyd ddiwedd ei oes fer. Wedi ymsefydlu yn ei gartref newydd agorodd ysgol yn Llandysul, ac aeth ei enw ar led fel un o athrawon gorau Cymru. Yr oedd ei ddisgyblion yn ei hanner addoli.

Cyn dyfod o Glasgow yr oedd wedi cyhoeddi cyfrol fach o farddoniaeth. Yr oedd yn medru Cymraeg syml a gwydn, a golygodd gylchgrawn "Yr Athraw" o Fedi 1865 hyd Awst 1867 ; dyma'r cyfnod y bu Yr Ymofynnydd yn cysgu dro.

Yn ystod ei weinidogaeth yn y cylch gwelodd lawer storm, am ei fod yn byw mewn cyfnod ystormus—y werin yn cil-agor ei llygaid ac yn dechreu sibrwd am ryddid.

Dyma gyfnod tenant yn brwydro a'i feistr tir a'r stiward, ac yr oedd Gwilym gyda'r dyn ar lawr bob tro. Dyma gyfnod gofyn am Ddeddf y Tugel a Deddf y Bwrdd Ysgol, a chafodd Gwilym brofi llid eglwys a gŵr mawr. Nid oes betruster na chafodd brofedigaeth ei fywyd am iddo fynnu pleidio hawliau gwerin.

Ar Hydref 29, 1876 trowd ef a'i gynulleidfa o hen Gapel Llwyn-rhydowen. Ni chafodd waeth triniaeth na llawer ffermwr a drowd

o'i fferm, ac erys ilawer enw fel Ffynnonllywelyn i ddweyd wrth oesau a ddaw hanes brwydrau slawer dydd.

Nid oedd Gwilym yn berchen ar gorff cryf ac amharwyd ei iechyd gan weithio caled a phryder dwys y dyddiau du.

Ofer ei ymchwil am iechyd yn yr Alban ac ar y môr. Rhoes ei ysgol i fyny ac yna ofal ei eglwysi. Hunodd ar yr 11 o Ragfyr 1879, a gorwedd ger y Capel Newydd y sydd yn arwydd o gyd-ymdeimlad Cymru gyfan ag ef. Y mae gennyf i fy marc fy hun arno am iddo roi sedd awdurdod gyda Martineau a Pharker ym myd rheswm a chydwybod dynoliaeth—am iddo bortreadu Iesu fel ymgnawdoliad o'r gorau—am iddo bregethu y Gobaith Eangach (ar ôl Priestley hwyrach)—am iddo ddysgu i werin mai nid proffes mo crefydd ond rhywbeth i'w gwau yng ngodre cymeriad a drwy fywyd bob dydd pob un ohonom—am iddo roi ein crefydd ar sylfaen ddiogelach na phroffwydoliaeth a gwyrth—am iddo bregethu cariad Duw gan bwysleisio ysbryd defosiwn a chymundeb â Duw—am iddo gerdded law yn llaw â dysg a moes a golau'r wawr yn ei lygad—am iddo herio trais scweier a stiward yn gadarn yn nerth Duw.

Y mae ef yn ei fedd ond y mae'i ysbryd eto'n fyw.

G.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

Am Fis Medi.

Trefnwyd gan Mr. Emrys Rees, B.Sc., a Mr. T. Bryn Jones, B.Sc.

Safon I.—*I Blant o dan 8 oed.*

A. *Gwers.*—Iesu yn cael ei fedyddio a dechrau pregethu. (Mathew III a IV ; Marc I ; Luc III a IV).

Yn amser Iesu Grist yr oedd yna ddyn o'r enw Ioan yn pregethu yn anialwch Iwdea ac yn bedyddio pobl yn afon Iorddonen. Afon fwyaf y wlad oedd Iorddonen. Am ei fod yn bedyddio pobl gelwid Ioan yn Ioan Fedyddiwr. Yr oedd yn ddyn hynod. Gwisgai ddillad o flew camel a gwregys o groen am ei ganol. Locustiaid a mêl gwyllt oedd ei fwyd.

Pan oedd Iesu yn ddeg-ar-hugain (tri deg) oed aeth at Ioan i gael ei fedyddio ganddo. Nid oedd Ioan yn fodlon ei fedyddio ar y dechrau ond bodlonodd o'r diwedd. Pan oedd Iesu yn y dŵr disgynnodd Ysbryd Duw arno fel colomen.

Yr un pryd galwodd llais o'r nefoedd, "Hwn yw fy annwyl fab."

Wedi cael ei fedyddio aeth Iesu i'r anialwch wrtho'i hun, a bu yno am ddeugain (pedwar deg) niwrnod, a deugain nos. Yna dechreuodd bregethu a gwella cleifion. Mewn dinas o'r enw Cap-er-naum ar lan môr Gal-il-ea y pregethodd ei bregeth gyntaf.

B. *Cwestiynau.*

Pa bryd yr oedd Ioan yn pregethu? Ym mha le yr oedd yn pregethu? Pa beth arall a wnai? Ym mha le yr oedd yn bedyddio pobl? Pa beth oedd Iorddonen? Pa enw arall a wyddoch am Ioan? Pa fath ddyn oedd Ioan? Disgrifiwch ei ddillad. Pa beth oedd ei fwyd? Pa faint oedd oed Iesu pan gafodd ei fedyddio? A oedd Ioan yn fodlon bedyddio Iesu? A fedyddiodd Ioan ef? Pa beth a welwyd pan oedd Iesu'n cael ei fedyddio? Tebyg i beth oedd yr ysbryd a ddisgynnodd ar Iesu? Pa le yr oedd Iesu pan ddisgynnodd yr ysbryd arno? Pa beth a glywyd yr un pryd? O ba le y daeth y llais? Pa beth a ddywedodd y llais? I ba le yr aeth Iesu wedi ei fedyddio? Pa faint o amser y bu yno? Pwy oedd ganddo yno? Pa beth a wnaeth Iesu wedi dyfod yn ôl o'r anialwch? Ym mha le y dechreuodd Iesu bregethu? Beth oedd Capernaum? Ym mha le yr oedd Capernaum? Pa beth a wnaethai Iesu heblaw pregethu?

C. *Dysgu ar gof*:

[1] Emyn 476 (Perlau Moliant), pedair llinell gyntaf o'r ail bennill.

[2] "Llef un yn llefain yn y diffeithwch; Paratowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef."

SAFON II. *I Blant o 8 i 12 oed.*

A. *Gwers*:

Darllener y drydedd bennod o "Hanes Iesu i Blant" (T. O. Williams, M.A.), yn fanwl, ac yna ateber y cwestiynau hyn.

B. *Cwestiynau.*

Pa beth a wnawn ni i blant bach? Pa beth a wnai'r Iddewon i fabanod? Faint oedd oed y baban pan wnaent hyn ag ef? Pa beth oedd yr enwaediad? A enwaedwyd Iesu? Arwydd o

beth oedd yr enwaediad? Pa beth a ddigwyddai i faban dcugain niwrnod oed gan yr Iddewon? Ym mha le y dechreuodd yr arfer hwn? Ym mha le y bu'r genedl yn gaeth? Sut y daethant oddi yno? Pa beth a wnaeth Duw pan oeddent yn cychwyn o'r Aifft? Pa beth yw ystyr Pasg? Pa beth a wnai'r Iddew i bob cyntaf anedig ar ôl hyn? Pa beth a wnaethant i gyntaf-anedig pob anifail? I ba deulu y perthynai'r swydd o offeiriad? Pa beth a wnai'r Iddewon ar ôl cyflwyno eu plant i Dduw? Faint a dalent am gael eu plant yn rhydd? Faint yw gwerth sicl? Pa beth a wneid i'r fam yr un adeg? Faint oedd pris y puro? Faint oedd y pris a dalai'r tlawd? I ba ddosbarth y perthynai Joseff a Mair? Pa bryd y rhoid enw ar y bachgen? Pa beth oedd enw mab bach Joseff a Mair? I ba iaith y perthyn yr enw Iesu? Pa beth oedd yr enw Hebraeg am Iesu? Pwy a ddaeth at Iesu pan gafodd ei gyflwyno? Pa fath ddyn oedd hwn? Pa beth oedd Duw wedi addo iddo? Pa beth a ddywedodd am Iesu? Pwy arall oedd yno? Ym mha le y treuliai'r ddynes hon ei hamser? Pa beth oedd ei gwaith? Am ba beth y tystiai hi? Pa beth a ddywedir fod Iesu? Pa beth yw ystyr Nasaread? I ba le yr aeth rhieni Iesu wedi ei gyflwyno? Ym mha lyfr y ceir yr hanes cyntaf am Iesu? Pa bryd y ceir hanes Iesu gyntaf mewn lleoedd eraill heblaw'r Beibl? Pa faint oedd ei oed pan gawn ei hanes yn y Beibl? Pa beth oedd Nasareth? Pa sawl llawr oedd i'r tai? Pa fath dô oedd iddynt? Pa beth oedd ar y llawr ger y wal? Pa beth oedd o amgylch y tŷ? Pa beth oedd ar y silff? Pa fath ford oedd ganddynt? Pa le y cedwid y bwyd a'r gwin? Pa fath ffenestri oedd i'r tai? Pa beth a wisgid am y traed? Pa fodd yr aent i nen y tŷ? Pa beth a wnaent ar nen y tŷ? Sut y melid gwenith? Sut y telid am waith a phethau eraill? Pa beth a gawsai Joseff am iau neu aradr neu ryw waith saer arall? Pa beth a ddefnyddid yn lle ymenyn a siwgr? Pa beth a ddefnyddid yn lle llwy? Paham y rhoddid cymaint o bwys ar olchi dwylo? Pa sawl gwaith yr adroddid adnodau yn ystod y dydd? Pa beth a ddysgai'r plant yn fore? A oedd bywyd Iesu yn wahanol i fywyd plant eraill?

C. *Dysgu ar gof*:

[1] Emyn 476 (Perlau Moliant), y pennill olaf a'r cytgan.
[2] Luc II. Adn. 28—33.

SAFON III. *O 12 oed i fyny.*

Medi 4—Mathew X.
Medi 11—Mathew XI.
Medi 18—Mathew XII, 1—30.
Medi 25—Mathew XII, 30—50.

Agor Neuadd y Graig, Trebanos.

Mehefin 27. Dyma ddydd a gofir yn hir gan gynulleidfa Gellionnen a'r Graig—dydd agor y Neuadd newydd. Yr oedd eisiau adeilad o'r fath i gwrdd ag anghenion y gynulleidfa. Saif hefyd yn dystiolaeth amlwg o werthfawrogiad y genhedlaeth bresennol o ymdrechion ac aberth y gorffennol. Y mae bron ddau can mlynedd a hanner er pan godwyd y capel cyntaf ar fynydd Gellionnen, ond y mae'r achos yn hŷn na hynny. Bwriwn gipdrem dros hanes adeiladau'r gynulleidfa'n ystod y cyfnod hwn.

Y Cyfnod Crwydr. Bylchog iawn ydyw'r hanes. Am hynny rhaid symud yn wyliadwrus. Gwyddom fod Piwritaniaeth yn allu cryf yn y cymdogaethau hyn. Nid pell oddiyma y mae eglwys Ilston a gychwynnwyd yn 1649. Yn Abertawe y cartrefai Stephen Hughes, Apostol Ymneilltuaeth Sir Gaerfyrddin. Yr oedd dylanwadau Piwritaniaeth yn gweithredu ar yr ardal. Dywaid nodiad a ysgrifennwyd yn 1675, " There is another church, commonly called the church of Cadogstone, who now meet commonly at Baglan, Mr. Robert Thomas, being their pastor . . . Their judgment is Independent ; some of them are Baptists . . . Part of them also lie about Llangyfelach, as also about Cynffyg . . . There are also several scattered Baptists inhabiting about Gower land, Llangyfelach, the borders of Caermarthenshire, as also about Baglan, who make up, as I suppose, one church . . . " Robert Thomas ydyw'r dyn sy'n arwain y gynulleidfa o'r cyfnod crwydr i'r amseroedd gwell pan mae Deddf Goddefiad (1689) yn rhoi iddynt ryddid i godi tŷ i addoli Duw. Wedi'r Goddefiad daeth y datganoli, a chodi capeli mewn mannau cyfleus.

Codi Capel. Edrydd carreg ar fur yr adeilad presennol. " This place of worship for the use of a Society of Protestant Dissenters was first erected 1692 under the patronage of the Hon. Bussy Mansell, Esq. and rebuilt 1801 under the direction of the pastor for the time being the Rev. Josiah Rees in the 30th year of his ministry hereat."

Gwelir felly godi'r adeilad presennol yn 1801. Y mae'n helaethach na'r hen, ac yn cynnwys meini'r hen yn ei furiau.

Ysgrifenna'r Parch. John Evans yn 1873, pan ddeallwyd y gellid prynu'r tir o dan y capel a'r fynwent, " Teimlai'r gynulleidfa'n falch o'r newydd, oblegid talu cymaint o ardreth (£5 y flwyddyn), yr hen gapel yn mynd allan o *repair*, yn anghysurus, yn enwedig yn y gaeaf, i addoli ynddo, ac yn neulltuol am gael cyfleustra i brynu'r fynwent sydd wedi ei chysegru gan lwch eu teidiau. Nid mewn siarad yn unig y dangoswyd y teimlad ond mewn gweithred." Prynwyd y capel, y fynwent, ac erw o dir yn ychwanegol at ei helaethu. Costiodd £160. Ar ben hyn gosodwyd pen newydd ar yr hen dŷ, a gwnaethpwyd cyfnewidiadau oddimewn. " Ac yn awr, mae'r hen gapel wedi ei wneuthur yn newydd, oddieithr y muriau, y ffenestri, a'r oriel, ac y mae'r rhannau hyn wedi eu cymhwyso a'u gwellhau, fel y mae oddifewn yn hardd i'r llygad, cyfleus i lefaru a gwrando, ac yn llawer mwy dymunol i eistedd ynddo nag ydoedd yn flaenorol."

Sefydlu Capel y Graig. Tua 1862 codwyd ysgoldy yn Nhrebanos i'r Parch. John Evans. Ar ddyddiau'r wythnos cedwid ynddi'r Ysgol Ramadegol—ar y Sul cedwid Ysgol Sul a gwasanaeth yn yr hwyr. Gwasanaethodd felly am ddeng mlynedd ar hugain. Yn 1893 dechreuwyd godi capel yn ymyl y ffordd fawr o Bontardawe i Abertawe, ac ar 7 Tachwedd 1894 yr agorwyd Capel y Graig, un o gapeli harddaf yr enwad.

Wedi codi Ysgoldy wrth Gapel y Graig trowd yr " Hen Ysgoldy Bach " yn annedd-dy. Yn 1932 gwerthwyd hwn, ac adeiladwyd tŷ newydd i fod yn breswylfan y gweinidog.

Y Neuadd Newydd. Geill yn agos i bedwar cant eistedd yn gyffyrddus ynddi. Y mae iddi oriel a llwyfan helaeth. Cynhaliwyd rhan gyntaf y gwasanaeth agoriadol y tu allan i'r adeilad. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Mr. Lewis Morgan, ac offrymwyd gweddi gan y gweinidog. Canwyd emynau ar y tonau—

"Gellionnen" a "Chapel y Graig". I goffhau'r achlysur dadorchuddiwyd carreg yn y mur gan Dr. Geoffrey O. Evans yn enw ei dad, Dr. W. Owen Evans, M.B.E., J.P. Dadorchuddiwyd carreg arall gan y Cynghorydd Sirol Josiah Jones, J.P., Garthowen. Perfformiwyd y seremoni agor gan y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. Anrhegwyd hi gan yr adeiladydd ag allwedd aur i'r pwrpas. Llywyddwyd y cyfarfod yn y Neuadd gan y gweinidog, a rhoes Mr. John Hopkin hanes yr adeiladu. Dywedodd fod gosod yr Organ yn y capel yn 1925 wedi difa cymaint o'r Ysgoldy fel nad oedd bellach yn ddigon helaeth i gwrdd ag anghenion y gynulleidfa. Rhyw "freuddwyd" ydoedd yr adeilad hyd flwyddyn yn ôl pan anrhegwyd y gynulleidfa a thir cyfleus i adeiladu arno yn ymyl y capel gan Mr. B. Thomas, un o'r diaconiaid. Tynnwyd y planiau gan Mr. William Morgan, aelod o'r gynulleidfa, a'r adeiladwyr oeddent—y Mri. Henry H. Morgan a'i Fab, Trebanos. Cyfrifir y gost yn ymyl £1200, ac y mae'n agos i £800 eisoes wedi eu casglu. Siaradwyd yn y cyfarfod gan y Parchn. E. Rosalind Lee, Mortimer Rowe, G. Bedford Roberts, E. O. Jenkins, T. O. Williams a Dl. John, Miss Hargrove, Mr. Josiah Jones a Mr. George Payne. Darllenwyd llythyrau'n cludo dymuniadau oddiwrth Syr D. R. Llewelyn, y Parchn. Lewis Williams, S. E. Bowen, E. G. Evans, E. S. Price, J. M. Thomas, ac E. R. Dennis.

Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod pregethu. Dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. G. Bedford Roberts, a phregethwyd gan y Parchn. T. O. Williams a E. O. Jenkins. Siaradwyd hefyd gan y Parch. W. J. Rees, Alltwen.

Yn harddu'r llwyfan yr oedd cadeiriau Llanorfab, gwobrwyon y bardd yng ngorchest yr Eisteddfod, ac yn rhoi naws cartrefol i newydd-deb y muriau yr oedd darluniau o gewri'r enwad—rhodd Mrs. Mary Thomas, Gellinudd.

Wele'r adeilad bellach at ein gwasanaeth. Defnyddiwn ef yn ysbryd a ffydd y gwŷr da hynny a osododd sylfeini'r hen gapel ar fynydd Gellionnen. Heddiw, fel yn y dyddiau hynny, y mae rhyddid, cymdeithasol a chrefyddol, mewn perigl mewn llawer man o'r byd, ac hyd yn oed yn ein gwlad ni ein hunain. Credwn, fel hwythau, yn rhyddid barn a chydwybod, ym mhwysigrwydd cymeriad a buddugoliaeth daioni. Boed i'r adeilad newydd hwn fod yn dystiolaeth amlwg o'r ffydd a'r gobaith sydd ynom. Rhoes Banos fynegiant iddo'n ei emyn a ganwyd mor ddwys yn y cyfarfod agoriadol—

Mi welaf ddyddiau gwych yn dod
Pan fydd y bobloedd is y rhôd
Yn ymgyrhaeddyd at y nôd
O fyw a charu'r gwir.

Daw holl werinoedd Ewrop faith
I ganu salmau ar y daith,
A gorfoleddu yn y gwaith
O fyw a charu'r gwir.

COLEG CAERFYRDDIN.—Terfynwyd y tymor ar Fehefin 29, a da ydoedd gweld cymaint o Undodiaid yn bresennol ar "ddydd yr areithiau". Llywyddwyd gan Alderman Harold Baily, M.B.E., ac ar y llwyfan yr oedd y Prifathro a Mrs. W. S. Jones, y Parch. E. Rosalind Lee, M.A., Mortimer Rowe, B.A., Mrs. H. Baily, D.Sc., Mr. Harold Clennell, Capten Brynmor Anthony, Cofrestrydd Prifysgol Cymru, ac Athrawon y Coleg. Estynwyd y gwobrwyon a'r tystysgrifau i'r myfyrwyr gan Mrs. W. S. Jones. Dywedodd y Llywydd y bydd y *Presbyterian Fund* yn 250 mlwydd oed y flwyddyn nesaf, ac er mwyn dathlu hyn bwriedir helaethu ac adgyweirio adeiladau'r Coleg. Cytunodd y tri enwad, y Bedyddwyr, yr Annibynnwyr a'r Undodiaid, roddi pob help i'r cynllun.

Llongyfarchwn ein myfyrwyr ar eu gwaith. Ymhen rhestr myfyrwyr yr ail flwyddyn saif enw Mr. Hathren Jones, Cefn Coed. Pasiodd hefyd arholiad blwyddyn gyntaf y *Diploma*. Enillodd Mr. Ernest A. Davies, Trebanos *Class Prize* (3edd flwyddyn), a bu'n llwyddiannus yn arholiad ail flwyddyn y *Diploma*. Pasiodd Mr. Aubrey J. Martin, B.A. arholiad blwyddyn gyntaf y B.D., a chafwyd adroddiad da ar waith Mr. D. Jacob Davies ym Mhrifysgol Abertawe.

Y Cyfarfodydd Blynyddol.

Fe'u cynhaliwyd yng Nghapel y Graig, Llandysul ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Gorffennaf 26 a 27. Dechreuwyd yr oedfa nos Fawrth gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A. a J. D. Jones, B.A., B.D. Bore dydd Mercher cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas. Dechreuwyd oedfa'r prynhawn gan y Parch. S. Evans Bowen. Traddodwyd araith gan Mr. John Hopkin, Trebanos, Llywydd y Gymdeithas, a phregethodd y Parch. W. Griffiths, B.D., Ph.D. ar y testun—"Y Dyn Crist Iesu". Argraffwyd y bregeth hon, a gellir ei chael oddiwrth Dr. W. Griffiths, Southgate, Aberystwyth neu o Swyddfa'r Ymofynnydd. Pris—tair ceiniog. Ceir ynddi ffrwyth blynyddoedd o sylwadaeth a phrofiad a myfyrdod, a theilynga groeso gwresog ar bob aelwyd Undodaidd drwy Gymru. Dechreuwyd oedfa'r hwyr gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis a T. O. Williams, M.A.

Yr oedd yr oedfaon i gyd yn cyrraedd lefelau uchel, y canu'n hwylus, ac er garwed y tywydd yr oedd y cynulliadau'n lluosog.

Cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor.

Fe'i gynhaliwyd yng Nghapel y Graig, Llandysul bore dydd Mercher, Gorffennaf 27. Yn y gadair yr oedd y Llywydd, Mr. John Hopkin, Trebanos. Cymrwyd y rhannau defosiynol gan y Parch. E. Griffith Jones. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol, a derbyniwyd adroddiad y Trysorydd.

Y Myfyrwyr.—Cafwyd adroddiad ar waith y myfyrwyr yng Ngholeg Caerfyrddin gan yr Ysgrifennydd a'r Prifathro. Yr oedd yn adroddiad pur ffafriol. Y mae un o'r myfyrwyr, Mr. Alan T. Taylor, wedi gorffen ei gwrs, ac ar ymsefydlu ym Mhontypridd a Mountain Ash. Gedy hynny bedwar myfyriwr yn y Coleg y tymor nesaf. Medr tri o'r pedwar bregethu'n Gymraeg. Pasiwyd fod llongyfarchiadau'r Gymdeithas ynghyd a'i dymuniadau da i'w danfon i Mr. Alan T. Taylor, ac i Mr. J. Coram Davies, B.A. ar ei ymsefydliad yn West Grove, Caerdydd.

Swyddogion y Gymdeithas. Etholwyd y canlynol: Llywydd, y Parch. John Evans, B.A., Aberystwyth; Is-lywydd, Mr. George Thomas, West Cross, Abertawe; Trysorydd, Mr. David Jones, Dolgerdd; Ysgrifennydd, y Parch. E. O. Jenkins; Archwilwyr, Mr. J. O. James, Llandysul a Mr. L. T. Thomas, Penarwel. Pasiwyd fod diolch cynnes i'w ddanfon i Dr. D. J. Davies a Mr. A. T. Grindley, Aberystwyth am eu gwasanaeth cyson yn y swydd o archwilwyr. Etholwyd Mrs. Jenkins, Y Bryn; y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., a'r Ysgrifennydd i gynrychioli'r Gymdeithas ar Bwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr a'r Pwyllgor Cynghorol.

Coleg Caerfyrddin. Cafwyd ar ddeall gan y Prifathro W. S. Jones, M.A., M.Sc. fod ym mryd y Bwrdd Presbyteraidd adgyweirio a helaethu adeiladau Coleg Caerfyrddin. Amcenir gwneud hyn y flwyddyn nesaf pan fydd y Coleg yn ddau cant a hanner mlwydd oed, a bydd un ystafell i goffhau gwasanaeth ffyddlon y diweddar Brifathro J. Park Davies, M.A., B.D. Cyst y gwelliannau hyn o £4000 i £5000. Apeliai'r Prifathro am gydymdeimlad a chynorthwy'r cynulleidfaoedd. Pasiwyd ein bod yn cymeradwyo'r apêl i'r cynulleidfaoedd, ac yn gwahodd Mr. Jones i ymweld â'r capeli i egluro'r sefyllfa.

Derbyniwyd drwy law'r Parch. Lewis Williams wahoddiad i gynnal Cyrddau'r Hydref yn Rhydygwin.

Panteg a Phenrhiw. Pasiwyd ein bod yn cefnogi ymgais y General Assembly i luosogi nifer y gwasanaethau'n y ddau le yma, ond ni allai'r Gymdeithas ar hyn o bryd weld ei ffordd i addo *grant* at y draul.

Diolchodd y Llywydd i gyfeillion y Graig am dderbyn y cyfarfodydd, a diolchwyd iddo yntau am ei wasanaeth da fel Llywydd.

E. O. Jenkins.

Priodas.

Yng Nghapel Pantydefaid, Mercher, Gorffennaf 20, unwyd mewn glân briodas gan y Gweinidog, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. David Davies, y Parch. JOHN HENRY CORAM DAVIES, Gweinidog Capel Undodaidd Caerdydd, a HANNAH ITHWEN THOMAS, Penarwel, Llandysul.

" Love is a thing to walk with hand in hand,
Through the everydayness of this workday world."

Marwgofion.

Gorffennaf 30, bu farw Miss ANNE EVANS, Maesymeillion, Llanybyther, yn 82 mlwydd oed. Drwy ei hymadawiad collodd y gymdogaeth un o'r cymeriadau hynawsaf. Yr oedd wedi ei breintio'n gyfoethog â doniau eithriadol, a gwnaeth ddefnydd da ohonynt yn ystod ei byw. Cyfrifid hi yn ddoeth ymhob peth ac yn garedig yn ei meddwl tuag at bawb. Ni pherthynai iddi yr un math o wag-arddangosiad, ac yr oedd dull ei hangladd, yn ôl ei dymuniad ei hunan, yn arwydd o symlrwydd a thrwyadledd ei bywyd. Cludwyd ei chorff o'i chartref i'r bedd ym mynwent Alltyplaca mewn cambo, yn cael ei thynnu gan ei hen gaseg a hono yn wyth mlwydd ar hugain oed, ac yn cael ei harwain gan John, ei gwasanaethwr ffyddlon am flynyddoedd. Fel yn ei byw—felly yn ei marw. Preifat ydoedd yr angladd. Darllenodd y Parch. E. O. Jenkins yn y tŷ. Rhoddodd ei gweinidog anerchiad byr ac arweiniodd mewn gweddi. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parchn. Lewis Williams a E. O. Jenkins. Yr oedd Miss Evans yn chwaer i'r diweddar Dr. Gwenogvryn Evans, ac yn perthyn yn agos i deuluoedd Dolau-uchaf, Dolau-canol a Dolwlff. Pan oedd yn ddwy flwydd oed mabwysiadwyd hi gan y Parch. David Evans a'i briod, Maesymeillion—gweinidog yn ei amser yn Alltyplaca, Llwynrhydowen a Chaeronnen. Dywedodd ei gweinidog amdani ei bod yn un a gyfoethogodd ardal â'i phersonoliaeth fraf ac a gyfoethogodd yr enwad Undodaidd â'i chymeriad unplyg. Fe erys yn hir goffadwriaeth felys amdani.

Awst 1, yn 51 mlwydd oed, bu farw AGNES HORTON, Tŷ Ddewi, Penfro, gan adael priod, dau fab, brawd, a dwy chwaer, mewn galar o'i cholli. Claddwyd yng Nghladdfa Gyhoeddus Tŷ Ddewi y dydd Gwener dilynol, y Parch. R. T. Evans, ficer, yn gwasanaethu. Hefyd ar Awst 6 bu farw JANE JENKINS, Penyparc, ger Aberaeron, yn 50 mlwydd oed, gan adael priod, pedwar o blant, un brawd ac un chwaer. Gwasanaethwyd yn y tŷ ddydd yr angladd (y dydd Mercher dilynol) gan y Parch. Gwilym Evans, Aberaeron. Yn Eglwys Llannerch-Aeron, ac ar lan y bedd, gwasanaethodd y ficer—y Parch. John Williams. Wyresau oedd y ddwy i'r diweddar David a Mary Davies, Tyllwyd, ger Llanbedr, a chwiorydd i Mr. Saunders Evans, Bwlchymynydd, Llanybyther.

Blin iawn cofnodi marwolaeth ELENE, baban deufis oed Mr. a Mrs. Dan Evans, Brondaf, Gorsgoch, ar Awst 7. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym Mhrynhafod, a gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen a S. G. Thomas.

Awst 7, yn 71 mlwydd oed, bu farw MARY JONES o Gelligaer ym mhlwyf Cellan, wedi cystudd hir. Yr oedd yn dihoeni ers tro bellach, ac wedi'i chaethiwo i'r gwely, ond ni feddylid fod y diwedd mor agos o'i gweld mor siriol. Yr oedd wedi gweithio'n galed gan edrych yn ofalus ar ôl ei chartref. Benyw dawel, eirwir, a siriol ydoedd, a bydd bwlch ar ei hôl yng Ngelligaer am ddyddiau hir. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym mynwent Caeronnen. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch. T. O. Williams. Gadawodd ddau fab, brawd a dwy chwaer a nifer o berthynasau a ffrindiau i wylo deigryn ar ei hôl.

Awst 13, yn 75 mlwydd oed, bu farw DAVID HOWELLS, Vale of Aeron, plwyf Llanfihangel Ystrad. Perthynai i deulu a fu unwaith yn lluosog yn Nyffryn Aeron, ac yn perthyn i Gapel Rhydygwin. Bu ei rieni'n byw'n y Brynog Arms, ac yn Brynog Cottage. Eu henwau oedd Samuel a Margaret Howells. Wedi bod yn gweithio mewn llawer o fannau dychwelodd ychydig o flynyddoedd yn ôl i fyw at ei nith a'i phriod, Mr. a Mrs. Vaughan, yng ngwesty Vale of Aeron. Cafodd yno gartref da, a bu yntau'n hapus iawn. Tarawyd ef gan ergyd o'r parlys, a bu farw ymhen ychydig ddyddiau. Claddwyd ym mynwent Eglwys Ystrad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Moses Gelly, Ficer.

Awst 15, yn 61 mlwydd oed, bu farw TIMOTHY EVANS, Pantycelyn, gerllaw Cwrtnewydd, gynt o Danralltgoch. Meddai ar gorff cadarn hyd rai misoedd yn ôl. Tua dechrau'r flwyddyn hon dechreuodd achwyn, ond gwaethygu a wnaeth hyd y terfyn. Un ydoedd o dymer hapus, siriol ei wyneb. Nid oedd byth yn gadael i bryderon disail dduo ffurfafen ei fywyd. Yr oedd o feddwl deallus, o synnwyr cryf, ac o allu i ffurfio barn ar faterion cyffredin. Cyfrifid ef yn gymeriad cryf mewn llawer ystyr. Cymrai ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth, a threuliodd llawer o'i amser i ddysgu pobl ieuainc Capel y Bryn ar gyfer cyngherddau. Bu'n penteulu da, ac y mae ei blant wedi cyrraedd safleoedd anrhydeddus. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Capel y Bryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. Lewis Williams, S. Evans Bowen a Ben Davies. Chwareuwyd yr organ gan Miss Jones, Brynllefrith. Gadawodd briod, dau fab, dwy ferch, wyrion, tri brawd ac un chwaer mewn galar. Un o'i frodyr ydyw Maer presennol tref Llanbedr. Tad y trugareddau a Duw pob diddanwch a'u diddano hwy yn eu holl orthrymder.

Nodion yr Eglwysi.

Ein Gweinidogion.—Derbyniodd y Parch. T. L. Jones, Cyn-olygydd Yr Ymofynnydd, alwad i Leytonstone. Derbyniodd y Parch. Simon Jones, B.A. alwad i Barcyfelfed, Caerfyrddin. Ein dymuniadau gorau iddynt ill dau.

TREBANOS.—Llongyfarchwn Miss Minna Cope Hartnell a Miss Evelyn Davies ar gipio ohonynt yr ail wobr am chware deuawd ar y piano yn yr Eisteddfod Genedlaethol.——Y mae'r chwiorydd yn brysur yn trefnu ar gyfer y Tê a'r Basâr a gynhelir ar Fedi 22.

CAPEL Y FADFA.—Ar ddydd Sul, Awst 7, llongyfarchodd y gynulleidfa yr organyddes, Miss Lil Lewis, Glanrafon Arms, ar ei llwyddiant mewn arholiadau gyda chware'r piano. Y mae bellach yn A.L.C.M. Y mae Miss Lewis yn ffyddlon iawn gyda'r organ yma, a llawenhawn yn ei llwyddiant. Da hefyd ydoedd cael ein hadgofio fod llawer o'r merched ieuainc wrthi'n cymhwyso eu hunain ar gyfer chware'r organ rywbryd.

Y GYMANFA GANU.—Penderfynodd Pwyllgor Cymanfa Ceredigion ar y trefniadau canlynol ynghlŷn â'r Gymanfa nesaf a gynhelir yn Soar, Llanbedr ar Fehefin 12, 1939. Llywyddion—Bore, Mrs. Jones, Gelliaur, Pontshân ; Prynhawn, Mr. Elgan Jones, Llanbedr ; Hwyr, Mr. Timothy Richards, Llanbedr. Arweinydd—Mr. Matthews Williams, F.R.C.O., Amlwch. Organydd—Mr. Edward Morgan, Llandysul. Dewiswyd yr emynau a'r tonau canlynol allan o'r *Perlau Moliant*,—Tanycastell, Emyn 276 ; Maesgwyn (W. Hefin Williams), Emyn 219 ; Calfaria, Emyn 242 ; Brynawel, Emyn 398 ; Gnoll Avenue, Emyn 179 ; St. Elizabeth, Emyn 205 ; St. Oswald, Emyn 426 ; Capel y Graig, Emyn 354 ; Sanctus, Emyn 267 ; Dilyn Iesu (Tôn i'r Plant), Emyn 466. Dewiswyd hefyd y tonau a ganlyn—Gounod (Bristol Tune Book), Emyn 1010 o'r Caniedydd ; Capel y Fadfa, Emyn arbennig ; Limeslade ; Gwyneirion ; Lux Benigna (Dykes), Emyn 442 ; Bethany, Emyn 265. Tonau i'r Plant—" Iesu Annwyl " ; " O, cofia am Blant Bach y Byd " ; " Deisyfiad Plentyn " ; " Y Gorlan Glyd ".

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.